# Effeithiolrwydd Trefniadau Atal Twyll – Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Blwyddyn archwilio: 2020

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 2026A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti, o ran yr adroddiad hwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae'r Ymddiriedolaeth yn dangos ymrwymiad i atal twyll, mae ganddi drefniadau addas i roi cymorth i atal a chanfod twyll ac mae'n gallu ymateb yn briodol lle mae twyll yn digwydd.


Adroddiad cryno

Cefndir 4

Prif ganfyddiadau a meysydd ar gyfer gwella 5

Adroddiad manwl

Ein canfyddiadau 6

Atodiadau

Atodiad 1 – Adnoddau atal twyll 13

Atodiad 2 – Ymateb y rheolwyr 15

# Adroddiad cryno

## Cefndir

1 Ar 11 Mehefin 2019, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol Trefniadau Atal Twyll yn Sector Cyhoeddus Cymru: Trosolwg ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Roedd yr adroddiad yn adolygiad disgrifiadol, lefel-uchel o'r trefniadau sy'n bodoli yn Llywodraeth Cymru, y GIG a llywodraeth leol (awdurdodau unedol yn unig), ac yn amlygu rhai negeseuon pwysig:

- mae colledion a achosir gan dwyll yn y sector cyhoeddus yn sylweddol. Mewn cyfnod o gyni, mae pob punt a gaiff ei cholli i dwyll yn bunt y gellid ei gwario ar wasanaethau cyhoeddus.
- mae twyll ar bob ffurf yn esblygu'n gyson, felly mae angen i fesurau atal twyll aros gyfuwch â'r twyllwyr.
- mae adnoddau a neilltuir i weithgarwch atal twyll yn amrywio'n eang ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

2 Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad, fe gymeradwyodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gynnig yr Archwilydd Cyffredinol i wneud gwaith pellach ar draws ystod o gyrff yn sector cyhoeddus Cymru i archwilio pa mor effeithiol yw trefniadau atal twyll yn ymarferol ac i wneud argymhellion ar gyfer gwella. Fe wnaed y gwaith hwn rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Chwefror 2020.

3 Ar 30 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad cenedlaethol a oedd yn dwyn y teitl **Gwella Ein Perfformiad – Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru** sy'n crynhoi canfyddiadau allweddol ein hadolygiad ledled Cymru. Nid yw'n rhoi disgrifiad manwl o'r trefniadau sydd ar waith mewn cyrff unigol, ond mae'n nodi ystod o gyfleoedd i wella trefniadau atal twyll ledled Cymru.

4 Er bod yr adroddiad cenedlaethol yn nodi mai trefniadau atal twyll y GIG yw'r rhai sydd wedi datblygu fwyaf ar draws y sector cyhoeddus, roedd yn nodi y ceir agenda heriol o hyd o safbwynt sicrhau bod trefniadau atal twyll yn addas ar gyfer y degawd nesaf oherwydd bod globaleiddio a dyfodiad technoleg ddigidol wedi creu risgiau newydd, a chyfleoedd newydd, i'r twyllwyr.

5 Mae'r adroddiad yn galw ar gyrff y GIG i'w hargyhoeddi eu hunain:

- bod adnoddau atal twyll yn cael eu pennu yn seiliedig ar asesiad o ffactorau risg lleol.
- bod asesiadau risg atal twyll yn cael eu hintegreiddio â threfniadau rheoli risg corfforaethol.
- bod strategaethau ar waith i wneud mwy o ddefnydd o ddadansoddeg data i atal a chanfod twyll; a
- bod strategaethau ar waith i wella cydweithio o fewn y sector ac yn fwy eang ar draws ffiniau rhwng sectorau.

6 Mae'r adroddiad cryno hwn yn nodi ein hasesiad o drefniadau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (yr Ymddiriedolaeth) ar gyfer atal a chanfod twyll. Mae ein

hasesiad yn seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau, gan gynnwys papurau'r bwrdd a phwyllgorau, a chyfweliadau gyda nifer fach o staff.

## Prif ganfyddiadau a meysydd ar gyfer gwella

7 Canfu ein hasesiad fod yr Ymddiriedolaeth yn dangos ymrwymiad i atal twyll, bod ganddi drefniadau addas i roi cymorth i atal a chanfod twyll a'i bod yn gallu ymateb yn briodol lle mae twyll yn digwydd. Caiff ein canfyddiadau allweddol o'r gwaith eu nodi mewn mwy o fanylder yn yr adran ganlynol o'r adroddiad hwn.

8 Wrth wneud y gwaith hwn, canfuom rai meysydd ar gyfer gwella (**Arddangosyn 1**), y dylid eu hystyried ochr yn ochr â'r themâu a nodwyd yn yr adroddiad cenedlaethol. Mae ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i'r meysydd ar gyfer gwella ar gael yn **Atodiad 2**.

**Arddangosyn 1: meysydd ar gyfer gwella**

| Meysydd ar gyfer gwella |
|---|
| **Hyfforddiant atal twyll**<br>I1 Rhoi hyfforddiant atal twyll gorfodol ar waith ar gyfer rhai neu'r holl grwpiau o staff. |
| **Codi ymwybyddiaeth o atal twyll**<br>I2 Gwella cylchlythyrau i bwysleisio'r gwersi o achosion o dwyll a brofwyd a'r camau gweithredu y mae eu hangen i atal digwyddiadau yn y dyfodol. |
| **Capasiti staff atal twyll**<br>I2 Ystyried y capasiti Arbenigwyr Atal Twyll Lleol sy'n ofynnol i ddarparu adnoddau ar gyfer y lefelau gofynnol o waith rhagweithiol ac ymchwiliol, gan gynnwys hyfforddiant staff, a chynnwys cydnerthedd yn y tîm. |
| **Cofnodi a monitro'r risg o dwyll economaidd**<br>I3 Gweithredu cysondeb o ran cofnodi a monitro'r risg o dwyll economaidd yn unol â pholisi a strategaeth rheoli risgiau'r Ymddiriedolaeth. |

Ffynhonnell yr arddangosyn: Archwilio Cymru

# Adroddiad manwl

## Ein canfyddiadau

9 Mae’r tabl canlynol yn nodi tri maes ffocws o fewn ein gwaith a’n canfyddiadau.

**Arddangosyn 2: meysydd gwaith a chanfyddiadau**

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
|---|---|
| Fe wnaethom ystyried a yw’r haen uchaf yn dangos ymrwymiad i atal twyll ac yn darparu’r arweinyddiaeth angenrheidiol i frwydro yn erbyn twyll.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• y Bwrdd/tîm gweithredol yn hybu ymrwymiad clir i beidio â goddef twyll o gwbl ac yn hyrwyddo gwaith atal twyll;<br>• uwch arweinwyr yn mynd ati’n weithredol i hybu a rhaeadru diwylliant atal twyll;<br>• dealltwriaeth ar draws y sefydliad cyfan am gyfrifoldebau am atal twyll a rhoi gwybod am dwyll tybiedig; ac<br>• ymrwymiad sefydliadol i hyfforddiant ymwybyddiaeth o atal twyll a moeseg, gyda hyfforddiant atal twyll gorfodol priodol ac wedi’i dargedu ar gyfer yr holl staff. | Canfuom yr arfer da canlynol:<br>• y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol yw’r swyddog gweithredol ar y Bwrdd sy’n gyfrifol am atal twyll.<br>• mae atal twyll yn eitem sefydlog ar agenda’r Pwyllgor Archwilio.<br>• mae’r holl faterion sy’n gysylltiedig â thwyll yn cael eu trin fel blaenoriaeth gan y sefydliad, a cheir ymrwymiad eglur gan y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio.<br>• mae polisïau a strategaethau’n anfon neges gyson na fydd twyll yn cael ei oddef, ac y bydd pob cam yn cael ei gymryd i weithredu sancsiynau troseddol neu ddisgyblu yn erbyn cyflawnwyr. Mae’r Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod llinellau cyfathrebu effeithiol rhwng y rhai sy’n gyfrifol am waith atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth a grwpiau allweddol eraill o staff a rheolwyr allweddol eraill yn y sefydliad.<br>• mae’r Ymddiriedolaeth yn rhoi cyhoeddusrwydd i achosion o dwyll a brofwyd a’r camau gweithredu a gymerwyd.<br>Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella: |

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
| --- | --- |
| | • mae gan yr Ymddiriedolaeth raglen barhaus o sesiynau ymwybyddiaeth o atal twyll ond nid ydynt yn orfodol; ac<br>• mae cylchlythyrau sy’n rhoi cyhoeddusrwydd i dwyll a brofwyd a chamau gweithredu’n canolbwyntio ar gamau gweithredu twyllwyr yn hytrach nag amlygu gwersi a gwelliannau i reolaethau. |
| Fe wnaethom ystyried a oes gan y sefydliad strwythur addas a digon o adnoddau medrus i atal a chanfod twyll.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• Arbenigwr Atal Twyll Lleol dynodedig â chyfrifoldeb dynodedig am atal twyll a’r gallu i ddylanwadu ar lefel yr adnoddau atal twyll;<br>• lefel briodol o staff atal twyll profiadol, hyfforddedig ac achredig i gynnal ymchwiliadau a gwneud gwaith atal twyll;<br>• eglurder o ran rolau, cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd o ran atal twyll;<br>• buddsoddiad mewn atal twyll yn seiliedig ar benderfyniadau gwybodus sy’n deillio o asesiad o’r risg o dwyll sy’n amlygu risgiau ac yn pennu’r adnoddau y mae eu hangen i fynd i’r afael â hwy; a | Canfuom yr arfer da canlynol:<br>• mae gan yr Ymddiriedolaeth Arbenigwr Atal Twyll Lleol dynodedig, sydd â’r gallu i ddylanwadu ar lefel yr adnoddau atal twyll a ddynodir gan y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol.<br>• yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol yw’r arweinydd dynodedig ar gyfer tri chorff iechyd arall hefyd.<br>• mae’r Ymddiriedolaeth yn cyflogi staff atal twyll achredig a hyfforddedig, sy’n mynychu cyrsiau hyfforddi a datblygiad proffesiynol yn ôl y gofyn.<br>• mae lefel yr adnoddau atal twyll o fewn yr Ymddiriedolaeth ychydig yn is na’r cyfartaledd ar gyfer Cymru (**Atodiad 1**). Mae cyfradd cyfwerth ag amser cyflawn (CagAC) adnoddau atal twyll lleol am bob 1,000 o aelodau o staff yn 0.16 CagAC, o’i gymharu â’r cyfartaledd ar gyfer GIG Cymru o 0.19 CagAC.<br>• mae gan yr Ymddiriedolaeth rolau a chyfrifoldebau atal twyll a ddisgrifir yn glir. Ceir protocol sy’n nodi rolau a chyfrifoldebau’r tîm atal twyll, y tîm cyllid a thîm y gweithlu mewn perthynas â chanlyn arni â sancsiynau am gyflawni twyll. |

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
| --- | --- |
| • rhaglen flynyddol o waith atal twyll rhagweithiol (gwaith atal twyll) sy'n cwmpasu'r risgiau a nodir yn yr asesiad risg gydag amser wedi'i ddiogelu'n cael ei ddyrannu i waith rhagweithiol. | • mae gan yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol a staff atal twyll fynediad at yr holl systemau, cofnodion ac adeiladau y mae eu hangen i wneud eu gwaith.<br>• mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol yn cwblhau Offeryn Hunanadolygu (SRT) Awdurdod Atal Twyll y GIG yn flynyddol. Lle canfyddir materion (risgiau), cânt eu hymgorffori yn y cynllun gwaith atal twyll, ynghyd ag unrhyw faterion/risgiau a ganfyddir trwy'r gwaith atal twyll cyffredinol. Mae'r Offeryn Hunanadolygu'n nodi blaenoriaethau o ran gwaith rhagweithiol ar gyfer y flwyddyn.<br>• mae nifer y diwrnodau a neilltuir i waith atal twyll rhagweithiol ac adweithiol yn seiliedig fwy neu lai ar flynyddoedd blaenorol, ond mae'r cynllun yn hyblyg a gall addasu i alwadau wrth i achosion godi.<br>Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:<br>• dim ond 0.4 CagAC yw lefelau staffio. Os yw lefel y gwaith ymchwiliadol yn cael ei chynyddu, neu pe bai unrhyw aelod o staff yn absennol, gallai hyn effeithio ar y gallu i gyflawni'r lefel gytunedig o waith atal twyll rhagweithiol.<br>• yn ystod 2018-19, darparwyd hyfforddiant atal twyll ar gyfer oddeutu 50 aelod o staff; mae hyn yn llai na 2% o weithlu'r Ymddiriedolaeth. |
| Fe wnaethom ystyried a oes gan y sefydliad fframwaith polisi cadarn i ategu trefniadau atal twyll effeithiol. | Canfuom yr arfer da canlynol:<br>• mae gan yr Ymddiriedolaeth bolisi atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth (y polisi). Dyddiad y polisi cyfredol yw Chwefror 2017, ond nid yw'n eglur pryd y mae i fod i gael ei adnewyddu. Mae'r polisi'n cynnwys cynllun ymateb atal twyll. |

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
| --- | --- |
| Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• strategaeth/polisi atal twyll sy'n nodi dull y sefydliad o reoli risgiau o dwyll ac sy'n diffinio cyfrifoldebau penodol am atal twyll;<br>• Cod Ymddygiad sy'n nodi ymddygiadau derbyniol a sut i roi gwybod am wrthdaro buddiannau a'i reoli;<br>• trefniadau cadarn ar gyfer chwythu'r chwiban sy'n nodi mecanweithiau ar gyfer rhoi gwybod am dwyll;<br>• cofrestrau o roddion a lletygarwch sy'n cael eu cynnal; a<br>• sgrinio cyn cyflogi. | • craffwyd ar y polisi ac fe'i cymeradwywyd gan Arbenigwr Atal Twyll Lleol yr Ymddiriedolaeth, uwch reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio.<br>• mae ymwybyddiaeth staff o'r polisi'n cael ei chodi mewn sesiynau ymwybyddiaeth o atal twyll.<br>• mae gan yr Ymddiriedolaeth God Ymddygiad priodol, a pholisïau chwythu'r chwiban a seiberddiogelwch gyda phrosesau adolygu ac adnewyddu wedi'u sefydlu.<br>• mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol i gynnal ac adolygu cofrestrau o fuddiannau, rhoddion a lletygarwch.<br>• mae gan yr Ymddiriedolaeth Iechyd drefniadau i sicrhau bod yr holl staff newydd yn cael gwiriadau cyn cyflogi cyn eu bod yn dechrau cyflogaeth yn y sefydliad.<br>Ni chanfuom unrhyw feysydd ar gyfer gwella. |
| Fe wnaethom ystyried a oes gan y sefydliad asesiad effeithiol o'r risg o dwyll ynghyd ag ymatebion priodol i faterion sy'n dod i'r amlwg.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• asesiadau rheolaidd a chynhwysfawr o'r risg o dwyll yn cael eu trafod a'u cytuno gydag uwch arweinwyr a'r Pwyllgor Archwilio; | Canfuom yr arfer da canlynol:<br>• mae'r Ymddiriedolaeth yn cwblhau Offeryn Hunanadolygu Awdurdod Atal Twyll y GIG yn flynyddol.<br>• mae cynlluniau gwaith blynyddol yn seiliedig ar gudd-wybodaeth a gafwyd ac a nodwyd, adolygiad o achosion sy'n mynd rhagddynt, atgyfeiriadau a blaenoriaethau ar gyfer gwaith rhagweithiol a nodwyd ledled Cymru. Mae lefelau adnoddau atal twyll yn gymesur â lefel y risg a nodwyd. Mae mesurau i liniaru effeithiau risgiau a nodwyd wedi'u cynnwys yn y cynllun gwaith, sy'n cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio. |

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
| --- | --- |
| • asesiadau o'r risg o dwyll yn cael eu cynnwys fel rhan o fframwaith rheoli risg cyffredinol y sefydliad; a hefyd<br>• y risg o dwyll yn cael ei chynnwys yn nyluniad systemau i leihau i'r eithaf y cyfleoedd ar gyfer twyll. | • mae polisïau a gweithdrefnau papur yn cael eu prawf-fesur o safbwynt twyll gan ddefnyddio canllawiau a gyhoeddwyd gan Awdurdod Atal Twyll y GIG. Mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol yn adolygu polisïau ac yn cynnig newidiadau lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol.<br>Canfuom y maes canlynol ar gyfer gwella:<br>• nid yw'r Ymddiriedolaeth yn cofnodi ac yn monitro'r risg o dwyll economaidd yn unol â'i fframwaith ar y cyfan ar gyfer rheoli risg ar hyn o bryd, er bod yr Ymddiriedolaeth wrthi ar hyn o bryd yn adolygu ac yn diweddaru ei fframwaith rheoli risg. Dylai asesiadau risg fod wedi'u hintegreiddio o fewn y fframwaith rheoli risg ehangach, i sicrhau perchnogaeth a rheolaeth weithredol gorfforaethol ehangach ar risgiau. |
| Fe wnaethom ystyried a yw amgylchedd rheolaeth fewnol y sefydliad yn ategu trefniadau effeithiol ar gyfer atal a chanfod twyll.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• rheolaethau mewnol yn cael eu dylunio a'u profi i fynd i'r afael â risgiau o dwyll a ganfuwyd a helpu i atal twyll rhag digwydd;<br>• gwaith gan y tîm Archwilio Mewnol i adolygu'r risgiau o dwyll a phrofi rheolaethau sydd wedi'u bwriadu i atal a chanfod twyll;<br>• y sefydliad yn gweithredu ar argymhellion i gryfhau rheolaethau os ceir nad yw rheolaethau | Canfuom yr arfer da canlynol:<br>• mae tîm archwilio mewnol yr Ymddiriedolaeth yn adolygu risgiau o dwyll ac yn profi rheolaethau sydd wedi'u bwriadu i atal a chanfod twyll fel rhan o'i rhaglen waith flynyddol. Mae gwybodaeth a chudd-wybodaeth yn cael eu rhannu gyda gwasanaethau atal twyll lleol yn unol â'r protocol rhannu gwybodaeth y cytunwyd arno.<br>• mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu ar argymhellion i gryfhau rheolaethau os ceir nad yw rheolaethau mewnol yn gweithredu cystal ag a fwriadwyd ac yn dysgu gwersi o ddigwyddiadau o dwyll.<br>• mae'r Ymddiriedolaeth yn cyfranogi yn ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol a gwiriadau lleol eraill (megis y gyflogres). |

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
| --- | --- |
| mewnol yn gweithredu cystal ag a fwriadwyd a gwersi'n cael eu dysgu o ddigwyddiadau o dwyll; a hefyd<br>• y sefydliad yn defnyddio ymarferion paru data i ddilysu data a chanfod gweithgarwch a allai fod yn dwyllodrus. | • mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio meddalwedd rheoli achosion i gofnodi'r holl wendidau mewn systemau a ganfuwyd o ganlyniad i ymchwiliadau a/neu ymarferion atal a chanfod rhagweithiol. Un o'r agweddau pwysig ar y meddalwedd hwn yw cofnodi gwersi a ddysgwyd.<br>Canfuom y maes canlynol ar gyfer gwella:<br>• canfu ein hadolygiad cenedlaethol ychydig o enghreifftiau yn unig o ddefnyddio dadansoddeg data fel modd i atal twyll, yn bennaf ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol. |
| Fe wnaethom ystyried a oes gan y sefydliad ymateb priodol i dwyll.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• cynllun cynhwysfawr ar gyfer ymateb i dwyll sy'n nodi trefniadau eglur ar gyfer rhoi gwybod am honiadau o dwyll ac ymchwilio iddynt;<br>• camau gweithredu i sicrhau bod honiadau o dwyll yn cael eu hasesu;<br>• gweithdrefnau wedi'u dogfennu ar gyfer cynnal ymchwiliadau i dwyll sy'n dilyn arfer proffesiynol priodol ac sy'n gyson â'r cynllun ymateb i dwyll;<br>• ystyriaeth i'r ystod lawn o sancsiynau sydd ar gael, a cheisio canlyniad sy'n gwneud iawn (er | Canfuom yr arfer da canlynol:<br>• mae Cynllun Ymateb i Dwyll yr Ymddiriedolaeth yn dilyn arfer gorau fel a gynghorir gan Awdurdod Atal Twyll y GIG.<br>• mae staff cymwysedig yn ymchwilio i bob achos o dwyll tybiedig, ac yn unol â'r Cynllun Ymateb i Dwyll. Mae deilliannau ymchwiliadau'n cael eu gwneud yn hysbys i'r Pwyllgor Archwilio ac i Awdurdod Atal Twyll y GIG.<br>• mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r ystod lawn o sancsiynau sydd ar gael (camau disgyblu staff, achosion sifil ac achosion troseddol) ac yn ceisio adfer arian lle mae gwneud hynny'n briodol ac yn gost-effeithiol.<br>• caiff yr holl ymchwiliadau eu dogfennu ar feddalwedd rheoli achosion. Mae gwersi o dwyll yn cael eu rhannu gyda staff priodol i'w rhoi ar waith a gweithredu newidiadau i systemau a gweithdrefnau lle y bo'n briodol.<br>• mae'r Ymddiriedolaeth yn cysylltu'n rhagweithiol ac yn rheolaidd â sefydliadau ac asiantaethau eraill megis Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg y GIG, yr heddlu, Gwasanaethau Mewnfudo'r Swyddfa Gartref, awdurdodau |

| Meysydd gwaith | Canfyddiadau |
|---|---|
| enghraifft adfer arian ac asedau) lle y bo'n briodol;<br>• system rheoli achosion briodol i gofnodi a monitro cynnydd achosion posibl o dwyll; a<br>• chydweithio gyda phartneriaid allanol i fynd i'r afael â thwyll. | lleol, a chyrff rheoleiddio a phroffesiynol i roi cymorth i atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth. Gellir prynu gwasanaethau arbenigol gan Awdurdod Atal Twyll y GIG lle y bo angen.<br>Ni chanfuom unrhyw feysydd ar gyfer gwella. |
| Fe wnaethom ystyried a oes gan y sefydliad drefniadau adrodd a chraffu priodol i sicrhau bod ei ddiwylliant a'i fframwaith atal twyll yn gweithredu'n effeithiol.<br>Roeddem yn disgwyl gweld:<br>• cofnod yn cael ei gadw o golledion a gafwyd o ganlyniad i dwyll ac a adferwyd.<br>• y Pwyllgor Archwilio'n defnyddio dull rhagweithiol i atal twyll ac yn hybu diwylliant atal twyll effeithiol.<br>• y Pwyllgor Archwilio'n herio ac yn adolygu gwaith atal twyll, ac yn sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas ag atal twyll. | Canfuom yr arfer da canlynol:<br>• mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal cofnod o golledion a gafwyd o ganlyniad i dwyll ac a adferwyd;<br>• mae atal twyll yn eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor Archwilio;<br>• caiff y cynllun blynyddol ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ynghyd ag adroddiadau rheolaidd ar gynnydd o ran cyflawni'r rhaglen waith flynyddol, ynghyd â risgiau o dwyll a ganfuwyd a chamau gweithredu i'w lleihau i'r eithaf; a hefyd<br>• cynhyrchir diweddariadau ar achosion ar gyfer sesiwn breifat y Pwyllgor Archwilio sy'n nodi'r achos, ei statws, ac arian/asedau a adferwyd.<br>Ni chanfuom unrhyw feysydd ar gyfer gwella. |

# Atodiad 1

## Adnoddau atal twyll

Mae’r arddangosyn canlynol yn nodi nifer yr adnoddau Arbenigwyr Atal Twyll Lleol am bob 1,000 o aelodau o staff.

**Arddangosyn 3: nifer yr adnoddau Arbenigwyr Atal Twyll Lleol am bob 1,000 o aelodau o staff (mewn trefn o’r uchaf i’r lleiaf)**

| | AATLI CagAC | Cyfanswm staff yn y sefydliad | AATLI CagAC am bob 1,000 o aelodau o staff (cyfrif pennau) |
|---|---|---|---|
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru[1] | 0.2 | 280 | 0.71 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 2.0 | 3,535 | 0.57 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys[2] | 1.2 | 2,286 | 0.52 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg[2] | 2.6 | 11,944 | 0.22 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 2.0 | 10,032 | 0.20 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 2.6 | 13,659 | 0.19 |
| **GIG Cymru (cyfartaledd)** | **18.2** | **94,614** | **0.19** |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe[2] | 2.2 | 12,962 | 0.17 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 2.9 | 18,491 | 0.16 |
| Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru[1] | 0.3 | 1,903 | 0.16 |
| Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre[1] | 0.4 | 4,411 | 0.16 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro[1] | 1.8 | 15,111 | 0.12 |

[1] Mae Tîm AATLI Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro hefyd yn darparu gwasanaethau ar gyfer Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth blynyddol.

[2] Mae Tîm AATLI Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe hefyd yn darparu gwasanaethau ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth blynyddol.

Ffynhonnell: Awdurdod Atal Twyll GIG Cymru, Adroddiad Perfformiad Gweithredol 2019-20 (Chwarter 3), a Chyfrif Pennau StatsCymru ar 30 Medi 2019 (wedi'i ddethol o system Cofnodion Staff Electronig y GIG).

# Atodiad 2

## Ymateb y rheolwyr

Mae'r tabl canlynol yn nodi ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i'r meysydd ar gyfer gwella (bydd ymateb y rheolwyr yn cael ei gyflwyno ar ôl i'r adroddiad gael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio).

**Arddangosyn 4: ymateb y rheolwyr**

| Cyf | Maes ar gyfer gwella | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| I1 | **Hyfforddiant atal twyll**<br>Rhoi hyfforddiant atal twyll gorfodol ar waith ar gyfer rhai neu'r holl grwpiau o staff | Fel rhan o'r adran cydymffurfio a chymhwysedd o fewn Cronfa Ddata Cofnodion Staffio Electronig yr Ymddiriedolaeth, rhaid i unrhyw hyfforddiant yr ystyrir ei fod yn orfodol gael cytundeb yr adran Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu yn yr Ymddiriedolaeth ar y cyd â Chynrychiolaeth o Blith Staff cyn y gellir ei roi ar waith. | Yn barhaus, gyda dyddiad adolygu o 31 Mawrth 2021 | Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol a Chyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu |
| I2 | **Codi ymwybyddiaeth o atal twyll**<br>Gwella cylchlythyrau i bwysleisio'r gwersi o achosion o dwyll a brofwyd a'r camau gweithredu y mae eu hangen i atal digwyddiadau yn y dyfodol | Bydd gwybodaeth berthnasol am "wersi a ddysgwyd" ynghyd ag unrhyw welliannau a fu i unrhyw wendidau a amlygwyd mewn rheolaeth ar systemau yn cael eu cynnwys fel rhan o gylchlythyrau a sesiynau ymwybyddiaeth ar gyfer staff yn y dyfodol. | Bydd yn dechrau yn ail chwarter 2020-21, a bydd yn parhau ar sail chwarterol (cylchlythyr) ac ar sail fisol (sesiynau ymwybyddiaeth) | Arbenigwr Atal Twyll Lleol |

| Cyf | Maes ar gyfer gwella | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| I3 | **Capasiti staff atal twyll**<br>Ystyried y capasiti Arbenigwyr Atal Twyll Lleol sy’n ofynnol i ddarparu adnoddau ar gyfer y lefelau gofynnol o waith rhagweithiol ac ymchwiliol, gan gynnwys hyfforddiant staff, a chynnwys cydnerthedd yn y tîm. | Yn seiliedig ar ddata hanesyddol, mae’r Ymddiriedolaeth yn hyderus bod nifer y diwrnodau yn ei chynllun gwaith yn ateb y gofynion cyfredol. I ategu hyn, mae adolygiadau rheolaidd o’r lefel barhaus o waith atal twyll a’r adnoddau sydd ar gael yn cael eu cynnal a’u cyflwyno i’r Pwyllgor Archwilio. Fodd bynnag, pe bai cynnydd mewn atgyfeiriadau, byddai’r angen am unrhyw adnoddau ychwanegol yn cael ei drafod gyda’r Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol ac yn cael ei gyflwyno gerbron i gael cymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio. | 31 Mawrth 2021 | Arbenigwr Atal Twyll Lleol a’r Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol |
| I4 | **Cofnodi a monitro’r risg o dwyll economaidd**<br>Gweithredu cysondeb o ran cofnodi a monitro’r risg o dwyll economaidd yn unol â pholisi a strategaeth rheoli risgiau’r Ymddiriedolaeth. | Fel rhan o adolygiad yr Ymddiriedolaeth o’i fframwaith rheoli risg, bydd asesiadau rheoli risg yn cael eu hintegreiddio o fewn y fframwaith rheoli risg ehangach hefyd. Bydd hyn yn sicrhau bod perchnogaeth a rheolaeth weithredol gorfforaethol ehangach ar risgiau’n gallu cael eu rhoi ar waith. | 31 Mawrth 2021 | Arbenigwr Atal Twyll Lleol a’r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.